Rhif: **WG21849**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

Pennod 6: 'Ymateb i honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill'

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2014**

# Canllaw diwygiedig ar ddiogelu plant mewn addysg

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol ac unedau cyfeirio disgyblion; awdurdodau lleol; cyrff llywodraethu; sefydliadau addysg bellach; Byrddau Lleol Diogelu Plant. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn crynhoi’r ymatebion a gafwyd i bennod 6 o ymgynghoriad ar ddiogelu plant mewn addysg (ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill). |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Dysgu Amrywiol a Diogelu<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 5010<br>e-bost: SafeguardingChildreninEducation@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Diogelu Plant: Gweithio gyda’n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004* (2004)<br>*Canllawiau Amdiffyn Plant Cymru Gyfan* (Plant yng Nghymru, 2008) |

ISBN digidol 978 1 4734 1301 6
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21849

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **2** |
| **Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad** | **3** |
| **Y camau nesaf** | **6** |
| **Rhestr o'r ymatebwyr** | **7** |

# Cyflwyniad

Caiff y Fframwaith ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn person sy'n gweithio gyda phlant ei ddisgrifio yn Diogelu Plant - Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.
http://cymru.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/participationstandards/?lang=cy
Nid oes unrhyw ganllawiau statudol annibynnol ar hyn o bryd ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Ym mis Awst 2013 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar ganllawiau diwygiedig ynghylch Diogelu Plant mewn Addysg. Roedd pennod chwech o'r canllawiau hynny'n cynnwys canllawiau penodol ar ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi'r canllawiau hynny fel canllawiau statudol annibynnol ar gyfer ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol ynghylch ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

O'r herwydd mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol â'r ymatebion i'r adran honno o Bennod Chwech o'r canllawiau drafft ar Ddiogelu Plant mewn Addysg. Mae'r adran hon yn trafod ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon ac aelodau o staff. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y 27 ymateb i'r adran honno o'r canllawiau. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ehangach ar Ddiogelu Plant mewn Addysg ac mae crynodeb o'r ymatebion a chanllawiau newydd ar y gweill.

Caiff canrannau eu nodi fel mesur o'r rhai a ymatebodd ynghylch materion penodol, ac nid fel mesur o'r holl ymatebwyr, drwy'r adroddiad hwn.

Dyma ddadansoddiad o'r ymatebwyr:

| | | |
|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 8 | 30% |
| Byrddau Lleol Diogelu Plant | 3 | 11% |
| Undebau'r Athrawon | 5 | 19% |
| Addysg Bellach | 2 | 7% |
| Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru | 1 | 4% |
| Estyn | 1 | 4% |
| Llywodraethwyr Cymru | 1 | 4% |
| Mudiadau Gwirfoddol | 4 | 15% |
| Arall | 2 | 7% |

Gellir gweld copi o'r ddogfen ymgynghori gyflawn yn:
http://wales.gov.uk/newsroom/educationandskills/2013/7782716/?lang=cy

# Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

O blith y 27 ymateb a ddaeth i law ynghylch yr ymgynghoriad ar yr adran o bennod 6 o Ganllawiau Diogelu Plant mewn Addysg sy'n trafod yn benodol ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill. At ei gilydd roedd yr ymatebion yn bositif. Nododd yr ymatebwyr fod y canllawiau yn esbonio'n glir y broses ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill, bod yr wybodaeth ynddynt yn ddefnyddiol ac yn sicrhau cydbwysedd pwysig rhwng diogelu hawliau plant a phobl ifanc agored i niwed rhag y rhai a allai gamddefnyddio'r statws sydd ynghlwm wrth eu swydd a'r angen i sicrhau bod yr aelod o staff sy'n destun honiadau yn ymwneud â diogelu plant yn cael ei drin yn deg ac yn gymesur.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at nifer o faterion yn ymwneud â'r themâu clir isod:

## Diffiniadau i'w defnyddio wrth nodi canlyniad ymchwiliadau i honiadau

Gofynnodd dau ymatebwr am ddiffiniad o'r term 'anwir'.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau wedi'u diwygio er mwyn cynnwys diffiniad o 'anwir'.  Rydym hefyd wedi cynnwys diffiniadau i'w defnyddio wrth nodi canlyniad ymchwiliadau i honiadau eraill, fel a ganlyn:

(a) Wedi'i brofi: mae digon o dystiolaeth i brofi'r honiad;
(b) Anwir: mae digon o dystiolaeth i wrthbrofi'r honiad;
(c) Maleisus: mae tystiolaeth glir i brofi y bu gweithred fwriadol i dwyllo a bod yr honiad yn gwbl anwir;
(d) Di-sail: nid oes unrhyw dystiolaeth na sail briodol sy'n cefnogi'r honiad a wneir.  Gallai hefyd ddangos hefyd bod yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad wedi camddehongli'r digwyddiad neu wedi gwneud camsyniad o ran yr hyn a welodd. Fel arall, mae'n bosibl nad oedd yn ymwybodol o'r holl amgylchiadau.
(e) Heb ei brofi: nid yw hyn yr un fath â honiad anwir. Mae'n golygu nad oes digon o dystiolaeth i brofi'r honiad nac i'w wrthbrofi.  Nid yw'r term hwn, felly, yn awgrymu bod rhywun yn euog nac yn ddieuog.

## Diffiniad o 'rheolwr achos'

Nid oedd sawl ymatebwr yn deall yn iawn pwy oedd y 'rheolwr achos' a theimlai sawl un y gallai cyflwyno'r teitl newydd o reolwr achos beri dryswch.

## Ymateb  Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill yn berthnasol i fwy na dim ond ysgolion a gynhelir - maent yr un mor berthnasol i ysgolion annibynnol a'r sector addysg bellach. Lle y gwneir honiad o fewn ysgol a gynhelir, dylai'r honiad hwnnw gael ei gyfeirio i'r pennaeth, (neu gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r honiad yn ymwneud â'r pennaeth). Mewn sefydliad addysg bellach, dylai'r honiad gael ei gyfeirio i'r pennaeth a dylai gael ei gyfeirio i'r perchennog o fewn ysgol annibynnol. O fewn uned

cyfeirio disgyblion, dylai'r honiad gael ei gyfeirio i gadeirydd y pwyllgor rheoli. Er hwylustod, rydym wedi defnyddio'r term 'rheolwr achos' fel term cyffredinol i ddisgrifio'r person y dylai'r honiad gael ei gyfeirio ato. Nid oes unrhyw sail gyfreithiol i'r term ond caiff ei ddefnyddio er hwylustod. Rydym wedi diwygio'r canllawiau er mwyn ceisio sicrhau bod hyn yn fwy clir.

## Cyfeiriad at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Teimlai deg ymatebydd nad oedd digon o gyfeiriadau at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan nac ychwaith ddigon o sylw iddynt. Cyfeiriodd un ymatebydd at bryderon ynghylch yr oedi o safbwynt trefnu cyfarfodydd strategaeth a theimlai y dylai'r canllawiau nodi'n fwy clir pwy a ddylai dderbyn gwahoddiad i fod yn bresennol. Teimlai ymatebwr arall y dylai'r canllawiau gynnwys amserlenni ynghylch amddiffyn plant;

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'r canllawiau drafft wedi'u diwygio er mwyn nodi'n glir y dylent gael eu darllen ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae cyfeiriadau at y Gweithdrefnau hyn wedi'u cynnwys drwy'r canllawiau a cheir dolen iddynt yn ogystal. Mae'r gweithdrefnau amddiffyn plant yn nodi'r broses ar gyfer cynnal trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth, a hefyd yn nodi pwy a ddylai dderbyn gwahoddiad a'r amserlenni ar gyfer eu cwblhau. Nid ydym wedi ailadrodd y rhain yn y canllawiau hyn.

## Gwrando ar lais y plentyn - cymorth ar gyfer plant sy'n gwneud honiadau

Teimlai sawl ymatebwr (6) nad oedd digon o gyfeiriadau/amlygrwydd i wrando ar lais y plentyn, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac er mwyn cynorthwyo plant sy'n gwneud honiadau ynghylch achosion o gam-drin er mwyn sicrhau eu lles a'u diogelwch.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae’r canllawiau wedi'u diwygio er mwyn adlewyrchu'r sylwadau a gyflwynwyd.

## Cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu ynghylch gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol a'u dyblygu

Yn hytrach nag ailadrodd adrannau o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu ynghylch gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol, teimlai sawl ymatebwr y dylai'r canllawiau groesgyfeirio at y canllawiau disgyblu. Teimlwyd na ddylai'r canllawiau gynnwys gormod o fanylion ynghylch ymchwiliadau a gweithdrefnau disgyblu, gan yn hytrach groesgyfeirio at y Broses Ddisgyblu a Diswyddo fel y bo'n briodol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Diben y canllawiau ynghylch ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill yw rhoi cyfarwyddyd clir a chryno i ysgolion, awdurdodau lleol ac eraill er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn gyson ac yn briodol. Mae'r canllawiau drafft wedi'u diwygio er mwyn cyfeirio at ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu ynghylch gweithdrefnau disgyblu a diswyddo mewn perthynas â staff ysgolion. Mae adrannau lle roedd dyblygu bellach wedi'u dileu. Mae'n werth nodi yma y caiff

canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch disgyblu a diswyddo staff ysgol eu hadlewyrchu maes o law er mwyn adlewyrchu'r canllawiau a hefyd ganlyniad yr ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2014 mewn perthynas ag ymchwiliadau annibynnol o honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

## Datgelu Gwybodaeth

Cafwyd ymholiadau gan sawl ymatebwr (2)ynghylch datgelu gwybodaeth, ac yn arbennig ynghylch sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ynghylch yr wybodaeth a gaiff ei datgelu i'r person sy'n destun i'r honiad, y disgwyliad o safbwynt datgelu os bydd oedi hir a'r wybodaeth a gaiff ei chyflwyno i'r staff a'r rhieni.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Lle y mae'n ofynnol cynnal trafodaeth strategaeth neu lle y mae angen cynnwys yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant, dywed y canllawiau y dylai'r pennaeth (sef y rheolwr achos) ymgynghori â'r asiantaethau hynny a chytuno ar yr wybodaeth y mae modd ei datgelu. Mae’r canllawiau ynghylch datgelu gwybodaeth yn glir ac o'r herwydd nid ydym yn cynnig eu diwygio.

## Siart lif o'r broses

Gofynnodd sawl ymatebwr (4) am linell amser weledol neu siart lif o'r broses ar gyfer ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill a'r broses o safbwynt amddiffyn plant.   Roedd y sylwadau a gyflwynwyd yn cynnwys:

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Gan fod y broses yn cwmpasu'r broses ar gyfer amddiffyn plant a ddisgrifir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, mae'r swyddogion sy'n ymwneud â Diogelu Plant mewn Addysg yn cynnig trafod â Grŵp Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yr ymatebion a dderbyniwyd yn y cyd-destun hwn a gwahodd sylwadau ganddynt ynghylch manteision datblygu siart lif ag amserlenni pendant ar gyfer gwahanol gamau'r broses y byddai modd ei chynnwys yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

Hoffai Llywodraeth  Cymru achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori hwn.

# Y camau nesaf

Caiff y canllawiau eu diweddaru er mwyn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chânt eu cyhoeddi fel canllawiau statudol annibynnol ar ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill cyn gynted â phosibl.

Mae'n werth nodi yma y caiff canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch disgyblu a diswyddo staff ysgol eu diwygio er mwyn adlewyrchu canlyniad yr ymgynghoriad hwn a hefyd ganlyniad yr ymgynghoriad ar Reoliadau drafft Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2014 mewn perthynas ag ymchwiliadau annibynnol o honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill.

## Rhestr o'r ymatebwyr

1. Cyngor Caerdydd – Yr Adran Addysg a Dysgu Gydol Oes
2. Gwasanaeth Ysgolion Cyngor Sir Powys
3. Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Wrecsam
4. Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
5. Gwasanaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
6. Adran Gofal Cymdeithasol a Thai Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
7. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
8. Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
9. Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru
10. Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru
11. Bwrdd Diogelu Coleg Sir Benfro
12. NUT Cymru
13. NAHT Cymru
14. Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) Cymru
15. NASUWT
16. UCAC
17. Estyn
18. Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
19. Llywodraethwyr Cymru
20. Plant yng Nghymru
21. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
22. NSPCC
23. Cymorth i Fenywod
24. Prifysgol De Cymru
25. UCW Cymru
26. SJ Education Consultancy
27. Dr Shone